**<u>Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 02-03(p2)</u>**

## Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2003

### Diben a bwriad y Rheoliadau

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tir Gofal 1999 (the Land in Care Scheme (Tir Gofal) Regulations 1999) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Tir Gofal a Ffermio Organig (Diwygio) (Cymru) 1999 a Rheoliadau Tir Gofal (Diwygio) (Cymru) 2001. Mae'r diwygiadau yn adlewyrchu newidiadau a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o addasiadau 2001 i'r Cynllun Datblygu Gwledig.

### Y Cefndir

2. Lansiwyd Tir Gofal ym mis Mawrth 1999 a chafodd y cynllun ei ailgymeradwyo ym mis Hydref 2000 fel rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n rhedeg y Cynllun. Ym mis Chwefror 2001, comisiynodd y Gweinidog Materion Gwledig broses gloriannu i ystyried gweithdrefnau gweinyddol a systemau cyflwyno'r cynllun ynghyd ag elfennau o'r fframwaith polisi.

3. Cyflwynwyd papur ar bob agwedd ar y broses gloriannu i'r Pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2001. Cafodd llawer o'r cynigion groeso mawr gan yr aelodau, gan gynnwys cyflwyno mesurau i hwyluso ceisiadau ar y cyd, ynghyd â newid y system sgorio i helpu ffermwyr ifanc.

4. Cytunodd y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2001 ar bapur arall a oedd yn trafod y newidiadau hynny yr oedd angen eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd eu cymeradwyo cyn y gellid eu rhoi ar waith. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r newidiadau hynny ar waith.

### Amcanion

5. Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer:-

- cyfuno a chael gwared ar ryw 16 o ragnodiadau rheoli dewisol a rhaglenni gwaith cyfalaf er mwyn cwtogi a symleiddio nifer yr opsiynau sydd ar gael, er enghraifft, cyfuno Rhos ar Fynydd â Rhos ar Dir Uchel a chael gwared ar y rhagnodiadau ar gyfer cnwd gwair ar laswelltir niwtral a glaswelltir wedi'i led-wella.
- cyflwyno un gyfradd o £2.50 y fetr sgwâr o byllau ar gyfer pob math o waith adfer ac adeiladu, hyd at uchafswm o £500. Nid oes terfyn ar hyn o bryd ar y swm y gellir ei ddyrannu.
- cyflwyno terfynau ariannol newydd o £5,000 ar ffermydd o lai na 2 ha ar gyfer gwaith cyfalaf ac

eithrio ffiniau caeau; £10,000 ar ffermydd o fwy na 20 ha ond llai na 50ha; ac £20,000 ar ffermydd o fwy na 50ha. Y terfyn ar hyn o bryd yw £20,000 fesul fferm, beth bynnag fo'i faint;

- symleiddio taliadau ar gyfer eitemau cyfalaf pren drwy gyflwyno bonws o 20% am ddefnyddio derw Cymreig. Bydd hyn yn peri bod rhyw hanner dwsin yn llai o opsiynau talu.
- cyflwyno taliad cymell o 10% i bori gwartheg yn ystod misoedd yr haf a thaliad cymell arall o 10% am ddefnyddio bridiau traddodiadol.

**Rhoi'r Rheoliadau ar Waith**

6. Caiff y Rheoliadau hyn effaith yn syth mewn perthynas â chytundebau Tir Gofal a lofnodir ar neu wedi'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

7. Mewn perthynas â chytundebau Tir Gofal a lofnodwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys fel a ganlyn -

(a) Yn achos paragraffau a gyfunwyd neu a ddiwygiwyd, bydd y darpariaethau hynny yn gymwys o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

(b) Yn achos paragraffau a ddilewyd, fe fydd hawl gan ddeiliad y cytundeb i barhau i dderbyn taliadau o dan y darpariaethau a ddilewyd a oedd yn gymwys pan lofnodwyd y cytundeb Tir Gofal.

**Yr effaith ar y diwydiant**

8. Rydym wedi trafod y newidiadau hyn i Tir Gofal gyda'r cyrff sydd â diddordeb gan gynnwys Undebau'r Ffermwyr ac mae'r diwydiant wedi'u croesawu. Ni pharatowyd asesiad rheoliadol o effaith y Rheoliadau hyn am nad ydynt yn rhoi pwysau ychwanegol ar y diwydiant.

**Y Manteision**

9. Effaith y newidiadau hyn fydd ei gwneud yn haws o lawer i ffermwyr ddilyn Cynlluniau Rheoli Tir Gofal. Byddant yn fodd hefyd o brosesu'r ceisiadau'n gynt. Fe fyddant o gymorth mawr i reoli costau cynlluniau unigol ac i helpu i sicrhau y caiff manteision y cynllun eu lledaenu'n decach ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan.

10. O gyflwyno terfynau ar gyfer rhaglenni gwaith cyfalaf bydd gwariant ar waith cyfalaf yn uniongyrchol gysylltiedig â maint y fferm ac yn rhoi gwell gwerth am arian drwy sicrhau y caiff gwaith hanfodol ei ariannu.

11. Drwy bennu uchafswm ariannol ar gyfer pyllau rhagwelir y bydd ffermwyr yn creu pyllau llai a fydd yn hybu'r manteision amgylcheddol i'r eithaf.

12. Bydd taliad cymell ar lidiartau pren caled yn annog pobl i ddefnyddio mwy ar bren caled lleol ac yn peri y bydd y trefniadau gweinyddol yn fwy effeithlon.

13. Bydd cyflwyno taliad cymell i bori gwartheg yn ystod misoedd yr haf a thaliad cymell arall o 10% am ddefnyddio bridiau traddodiadol yn peri y caiff y cynefinoedd eu rheoli'n well ac yn annog pobl i ddefnyddio bridiau traddodiadol.

**Costau**

14. Nid oes costau i'r Cynulliad. Fel y soniwyd uchod, rhagwelir y bydd y newidiadau hyn yn peri bod y trefniadau gweinyddol yn fwy effeithlon ac y byddant o gymorth mawr i reoli costau cytundebau unigol.

**Crynodeb ac Argymhelliad**

15. Mae angen gwneud y Rheoliadau er mwyn rhoi ar waith newidiadau i Tir Gofal a gymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o addasiadau 2001 i'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Swyddog Cyswllt: Alan Starkey
FFDD1
029 20 825776
Alan.Starkey@Wales.gsi.gov.uk